


seicolegydd i wybod fod y dull hwn yn ddigon i argyhoeddi ei gleiffon o'i fedrusrwydd am ei fod yn caniatáu i'r rhai a oedd yn disgwyl am eu triniaeth ei weld wrth ei waith. Wedi iddo osod yr aelod anafus yn ei sbilint, mi fyddai Owen Thomas yn gwarchod honno'n gywrain rhag i neb arall ymyrryd â'i waith llaw trwy'r ystryw syml o selio'r holl glymau â chwy'r, ac argraffu'r cwy'r â'i sêl ei hun.

Mewn byr amser, yr oedd galw mawr am wasanaeth Owen Thomas. Apwyntiwyd ef yn Swyddog Meddygol i gynifer ag wyth ar hugain o gymdeithasau elusennol y gweithwyr, a bu'n llwyddiant rhyfeddol. Mynnodd gael rhai rheolau go bendant. Mynnodd, er enghraifft, fod pob claf dan ei ofal, pa mor dlawd bynnag, yn talu iddo ryw swm neu ffi neu'i gilydd. Credai ef fod pobl yn dibrisio gwerth pethau sy'n dod iddynt yn rhad ac am ddim. Un tro, cynwodd rhyw ddy'n gawsai driniaeth am ddadgymaliad ei ysgwydd, fod y tâl o goron am driniaeth mor elfennol yn rhy ddrud. 'Beth' meddai'r Dr Thomas. 'rhy ddrud meddech. Wel, fyddwn i ddim chwinciad yn dadgymalu'r ysgwydd fel roedd hi gynt i chi'. Ymadwodd y claf hwn heb air pellach o gwyn.

Pan ofynnodd ei nai, Robert Jones, iddo am ei athroniaeth, crynhodd Dr Thomas drwy fynegi mai un o'r rhinweddau gorau yn ei dyb ef oedd diwyrddwyd a dewrder mewn eraill. Ei hoff waith oedd y gelfyddyd o iacháu. Roedd yn casáu gorffwys di-ben-draw gan ei fod yn ystyried mai hapusrwydd iddo ef oedd cael bod wrthi yn wastadol.

Er ei holl ymdrech, prin oedd y gydnabyddiaeth a dderbyniodd gan ei gyfoedion yn ystod ei oes. Llwyddodd yn rhyfeddol ar bwys ei allu i ddarganfod natur clefydau, drwy ei driniaethau llawfeddygol celfyddyd a'r modd y lluniodd ac y defnyddiodd sbilintau a gynhyrchoedd yn ei weithdy ei hun. Roedd yn arloeswr yn y maes.

Yn y *Lancet* (1867), cyhoeddodd ddull o rwymo asgwrn toredig yr ên isaf gyda weiren, ac allwedd ar y weiren honno i'w thynhau yn ôl y gofyn. Tynnodd y ddyfais hon sylw Berkeley Hill, a thua 1870, mabwysiadwyd hi ganddo yn Ysbyty Coleg y Brifysgol. Tua 1875, cyfarfu â Rhushton Parker (1847-1932), Athro cyntaf Cadair Llawfeddygaeth Coleg y Brifysgol, a disgybl i Lister. Cydnabu Rhushton Parker ei athrylith, a gwnaeth sbilintiau clun a phenliniau Owen Thomas



Hugh Owen Thomas (1834-91).



Stryd Nelson (1885).

argraff ddofn arno. Anogwyd Dr. Thomas i gyhoeddi ysgrif amdanynt, ac yn 1875, gwnaeth hynny mewn llyfr dan y teitl *Clun, Penglin a Migwrn* gan gynnwys lluniau. Ond llugoer oedd yr adolygiadau a gafwyd ym Mhrydain. Yn yr Unol Daleithiau, fodd bynnag, cafwyd ymateb gwahanol. John Ridlon (1852-1936) o ddinas Chicago oedd y cyntaf o'r Unol Daleithiau i ymweld â Stryd Nelson. Cerddodd i mewn i'r feddygfa yn Stryd Nelson, ac y mae wedi gadael i ni adroddiad llygad-dyst:

Euthum i mewn i'r 'stafell gyffuriau, ac yno yr oedd gwraig yn dal plentyn ar waelod bwrdd, a'r plentyn yn sgrechian nerth ei ben; yr oedd yna ddy'n mewn côt wen glerigol ac â chap stiward 'stafell smocio ar ei ben, a sbectol gwyrddau trwchus ar ei drwyn, â chanddo farf ddisgybledig - yr oedd hwnnw'n 'sgwrio traed cam y bychan...'

Trodd y Dr. H. O. Thomas at yr ymwelydd a meddai - 'Beth alla'i wneud i chi, Dr. Ridlon?' Atebais innau, 'Rwyf wedi darllen eich llyfr 'Clun, Pen-glin a Migwrn' ac 'rwyf wedi dod drosodd yma, dros dair mil o filltiroedd, er mwyn cael gwybod pa un ai chi sy'n gelwyddgi ai fi sy'n ddwl.' Ac meddai Hugh Owen Thomas, â'i lygaid yn pefrio: 'Mi gawn weld yr ateb 'rwy'n meddwl, ym mhen ryw hanner awr.

Gwnaeth agraff ddofn iawn ar Dr. Ridlon a dychwelodd i Chicago wedi'i lawn argyhoeddi fod Hugh Owen Thomas yn athrylith ac yn arloeswr ym maes llawfeddygaeth esgyrn.

Llanwodd H. O. Thomas ei fywyd i'r ymylon â gwaith caled a ni fyddai byth yn mynd ar ei wyliau a byddai wrthi ar y Sul hyd yn oed. Dechreuai ei ddydd yn blygeiniol tua chwech o'r gloch, a byddai'n noswyllo yn hwyr y nos.

Doedd dim pall arno. Roedd yn gwta ei ffordd ond yn un â chanddo argyhoeddiadau cryfion. Byddai wrth ei waith, hyd yn oed, ar y Sul. Cynhaliai ei glinig rhad yn ei dŷ yn Stryd Nelson bob bore Sul a thrinid yno, meddai Pedrog, 'glwyfau'r tlodion yn ddi-dâl.' Pedrog, hefyd, sydd yn adrodd hanes Dr. Owen Thomas a'r Dr. H. O. Thomas yn taro ar ei gilydd rhyw fore Sul, y naill ar ei ffordd i'w gyhoeddiad a'r llall ar ei ffordd i'w glinig rhad. Gofynnodd y gweinidog i'r meddyg oni fyddai'n mynychu lle o addoliad ar Ddydd yr Arglwydd. Atebodd y meddyg yntau. 'Pe buasai Iesu Grist yma, efo pwy ohonom ni yr âi.' Yr oedd cynnal elinig ar y Sul yn beth anghyffredin i ddydd â chanddo gefndir

Calфинаidd. Ond fel cefnogwr brwd i Charles Bradlaugh, yr oedd H. O. Thomas wedi mynd yn rhydd-feddyliwr. Yn wir, tosturi Bradlaugh at ddiolion apeliodd gyntaf at H. O. Thomas.

Rhododd ei briod Elizabeth Thomas gefnogaeth gref i H. O. Thomas, ac felly hefyd yn ddiweddarach ei nai, Robert Jones. Yr oedd Elizabeth Thomas a H. O. Thomas yn anwahanadwy. Gadawodd hithau ryw syniad inni o'r gwaith a gyflwynid ganddynt:

'Ysgrifennodd ei holl lyfrau â'i law, a gwnaeth y gwaith yn ystod oriau y dylai fod wedi cysgu ynddynt. Eisteddais gydag ef lawer, lawer gwaith hyd oriau mân y bore yn paratoi ac yn adolygu llyfrau gogyfer â'r wasg. Gwnes hynny am flynyddoedd am ei fod yn hoffi cael cwmni... Yr oedd yn ymateb i garedigrwydd, ond yr oedd yn teimlo pan esgeulusid ef, hyd yn oed, mewn manion bethau. Ond y fi a fyddai'n teimlo i'r byw drosto, ac yna d'wedai yntau: "Na hidiwch. Rhaid i ni gyflawni ein dyletswydd. Na foed i ni golli amser gwerthfawr gan ofer ddyfaru a disgwyl diolchgarwch a gwerthfawrogiad, ond boed i ni wneud ein gwaith tra bo'r amser gennym." Ac yna dyfynnai o'r emyn Gymraeg:

Ac nid rhag ofn y gosb a ddêl,
Nac am y wob'r 'chwaith.

Ni ddaeth anrhydeddau i ran H. O. Thomas heblaw gradd M.D. gan Brifysgol St. Louis yn yr Unol Daleithiau.

Pan gafodd annwyd wrth ymweld ag un o'i gleiffon yn Warrington yn 1890, goresgynwyd ef gan bwysau a threth ei waith. Llethwyd ei galon flinedig gan niwmonia, a daeth i ben bennod ogoneddus yn hanes meddygaeth Lerpwl.

A Charles Bradlaugh, gŵr na ddaeth byth dros ei farw sydyn, a ysgrifennodd deyrnged iddo yn y *National Reformer*, dyddiedig Ionawr 11, 1891:

Bu farw, Ionawr 6ed, H. O. Thomas, Lerpwl; gŵr ymroddedig i wyddoniaeth a chyfaill dirys i ddiodeffwyr tlawd; ac un a fu'n ffyddlon, trwy glod ac anghlod, i minnau hefyd. Taenais yn dyner ar ei fedd agored ddeilen werdd fel teyrnged o barch iddo.

Cerddodd cannoedd o weithwyr yn orymdaith dawel tu ôl i'r arch, yn ddocwyr, meistri'r glanfeydd, meistri'r goleulogau, yn ddoctoriaid a gweinidogion i dalu teyrnged i un a wasanaethodd ei gyd-ddyn drwy gydol ei oes.